

Cyngor Dinas Casnewydd

Trefniadau Derbyn i Ysgolion 2021/22

Adroddiad Ymgynghori

Deddfwriaeth

Un o ofynion statudol Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru yw bod Cyngor Dinas Casnewydd, fel yr awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir yng Nghasnewydd, yn cynnal ymgynghoriad blynyddol ar ei drefniadau derbyn i ysgolion. Rhaid i'r ymgynghoriad ddod i ben erbyn 1 Mawrth bob blwyddyn fel y gellir penderfynu ar y trefniadau derbyn sy'n deillio o hynny, naill ai ar eu ffurf wreiddiol neu gyda'r cyfryy addasiadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu.

Y flwyddyn benderfynu yw'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi. O ganlyniad, mae'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ymgynghori nawr ar y newidiadau arfaethedig i'r trefniadau derbyn i ysgolion a ddaw i rym o Fedi 2021.

Y Cyfnod Ymgynghori

Er bod y Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi bod yn rhaid cynnal ymgynghoriad ar drefniadau derbyn rhwng 1 Medi a 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu, ni nodir union hyd y cyfnod ymgynghori. Felly cychwynnodd ymgynghoriad Cyngor Dinas Casnewydd ar drefniadau derbyn 2021 ar 8 Ionawr 2020 a daeth i ben ar 28 Chwefror 2020. Roedd hyn yn caniatáu cyfnod ymgynghori o saith wythnos, gan gynnwys hanner tymor mis Chwefror.

Diben yr adroddiad

Rhoi gwybod i ymgynghoreion a phartïon eraill sydd â diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad ar drefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Cynigion ar gyfer newid
- Sail resymegol dros y cynigion
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Ymatebion o'r ymgynghoriad
- Llais y Dysgwr
- Argymhellion

Cynigion ar gyfer newid

1. Ailddiffinio dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion i gyd-fynd â ffin Cyngor Dinas Casnewydd, gan ddileu pob ardal o Sir Fynwy a Thorfaen o'r dalgylch;
2. Symud Ysgol Gynradd Somerton o glwstwr a dalgylch Llyswry i glwstwr a dalgylch Llanwern;
3. Disodli'r lle gwarantedig mewn ysgol i blant personél lluoedd arfog y DU mewn unrhyw ysgol o'u dewis gydag ysgol y dalgylch;
4. I ddileu'r flaenoriaeth benodol ar gyfer plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

Sail resymegol dros y cynigion

Mynediad i leoedd ysgol

Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd o 1,949 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2019. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos y bydd 14,097 o blant ysgol gynradd a 12,260 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd erbyn 2024, sef 2,038 o blant ychwanegol o gymharu â'r nifer yn 2019.

Roedd y tri cohort ar gyfer rownd dderbyn flynyddol Medi 2019 y mwyaf hyd yma gyda galw digynsail am leoedd Blwyddyn 7 trwy gyfrwng y Saesneg ledled y ddinas gyfan. Mewn ymateb i'r galw, cyd-drafododd y Cyngor i gael lleoedd ychwanegol Blwyddyn 7 ar draws pedair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol hwn. Mae mater tebyg wedi codi ers hynny mewn perthynas â cohort Blwyddyn 7 ym mis Medi 2020, gyda darpariaeth ychwanegol yn cael ei chreu mewn dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell 10% fel y lefel orau bosibl o leoedd gwag mewn ysgolion. O ran lleoedd cyfrwng Saesneg, dim ond 7.6% o leoedd gwag sydd gan ysgolion cynradd Casnewydd a 9.6% o leoedd gwag yn yr ysgolion uwchradd. Er y byddai'n ymddangos bod canran y lleoedd gwag hyn yn yr ysgolion uwchradd yn cyd-fynd yn fras ag argymhelliad Llywodraeth Cymru, mae'n werth nodi bod elfen sylweddol o'r lleoedd gwag hyn mewn dwy ysgol yn unig, ac mae'r ddwy hyn yn nwyrain y ddinas (Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Uwchradd Llyswry). Yn ogystal, mae nifer gwirioneddol y lleoedd gwag yn llawer is ym mlynnyddoedd 7 ac 8 nag ym mlynnyddoedd 9, 10 ac 11.

Mae hyn hefyd yn bryder yng nghyd-destun y nifer sylweddol o geisiadau ysgol yn ystod y flwyddyn yr arferid eu cael mewn blynyddoedd blaenorol. Felly mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i ddisgyblion Casnewydd ledled y ddinas, trwy amrywiaeth o ddulliau.

Sut bydd y trefniadau derbyn arfaethedig yn cyflawni hyn?

Os bydd gan ysgol (neu ysgolion) fwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, rhaid i awdurdodau derbyn fod â meini prawf ar waith i flaenoriaethu dyrannu lleoedd. Gelwir hyn yn "feini prawf gordanysgrifio".

Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol Casnewydd fel a ganlyn:

“Os yw ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig, mae gan y Cyngor ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r ysgol honno cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr eraill.

Os yw cyfanswm y dewisiadau ar gyfer derbyn i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn cael ei defnyddio i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

1. *Plant sy'n Derbyd Gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant a arferai dderbyn gofal;*
2. *Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n cyflwyno cais ar sail feddygol neu sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac wedi'u hargymhell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol;*

3. *Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol;*
4. *Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch;*
5. *Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n cyflwyno cais ar sail feddygol neu sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac wedi'u hargymell gan y Gwasanaethau Cymdeithasol;*
6. *Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol;*
7. *Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.*

Ar ôl ystyried y categorïau uchod, neu os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw un o'r categorïau uchod yn fwy na'r nifer derbyn wedi'i gyhoeddi, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol."

Yn ogystal, ac o dan y pennawd "Personél y Lluoedd Arfog", mae'r polisi yn nodi:

"Os yw'r cais ar gyfer plentyn personél y lluoedd arfog sydd naill ai'n gwasanaethu neu'n dychwelyd o wasanaeth ar adeg cyflwyno'r cais, bydd y Cyngor yn derbyn y plentyn i'r ysgol os oes tystiolaeth anfon swyddogol ynghlwm wrth y cais sy'n nodi:

- *dyddiad dychwelyd pendant;*
- *cadarnhad o'r cyfeiriad newydd, lle bo modd;*
- *cadarnhad o'r statws gwasanaethu/teulu'n dychwelyd."*

Manylion y cynigion

O ystyried y pwysau ar leoedd ysgol ar draws y ddinas, mae rhai o'r blaenoriaethau hyn yn cyflwyno sefyllfa rhy eang i'r Cyngor ei chynnal ac felly bu ymgais i newid hyn trwy ymgynghori ynghylch amrywiaeth o gynigion fel a ganlyn:

(a) Ailddiffinio dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion i gyd-fynd â ffin Cyngor Dinas Casnewydd, gan ddileu pob ardal o Sir Fynwy a Thorfaen o'r dalgylch o ganlyniad

Yn y gorffennol, ers dyddiau Cyngor Sir Gwent, mae rhannau o Sir Fynwy (Brynbuga a Goetre) a Thorfaen (Pont-hir) wedi'u hystyried yn rhan o ddalgylch dynodedig Ysgol Gyfun Caerllion. Mae hyn wedi golygu bod disgyblion Sir Fynwy a Thorfaen sy'n byw o fewn y dalgylch cytunedig hwn yn cael blaenoriaeth uwch am le yn yr ysgol na phlant Casnewydd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch – gan leihau eu siawns o gael lle yn yr ysgol o ganlyniad.

Fodd bynnag, wrth benderfynu ar ei drefniadau derbyn ar gyfer mis Medi 2020, cymerodd Cyngor Sir Fynwy, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, y camau cyntaf i newid y sefyllfa hon trwy ddynodi ysgolion uwchradd Sir Fynwy yn ysgolion dalgylch ar gyfer ardaloedd Brynbuga a Goetre. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd o blaid y cynnig hwn; fodd bynnag, nid oedd amseriad yr ymgynghoriad yn caniatáu digon o amser i Gasnewydd gynnwys unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd yn ei ymgynghoriad ei hun ar drefniadau derbyn ar gyfer 2020. O ganlyniad, yn weithredol o fis Medi 2020, bydd gan rai o drigolion Sir Fynwy ddwy ysgol uwchradd ddalgylch ddynodedig – un yng Nghasnewydd ac un yn Sir Fynwy.

Wrth symud i gysoni'r dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion â'r cynigion a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Fynwy, roedd y cyngor hwn yn ymwybodol bod dalgylch presennol yr ysgol hefyd yn ymestyn i Bont-hir, sydd o fewn ffiniau Torfaen. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion sy'n byw yn yr ardal hon flaenoriaeth hefyd i'w derbyn i'r ysgol dros blant Casnewydd. O ystyried y galw sylweddol am leoedd mewn ysgolion uwchradd yng Nghasnewydd, bydd y cynnig i gysoni dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion â ffin y ddinas yn dileu'r flaenoriaeth dalgylch sydd ar hyn o bryd gan breswylwyr nad ydynt yn byw yng Nghasnewydd dros ddisgyblion Casnewydd. Os cymeradwyir y cynnig, bydd pob disgybl nad yw'n byw o fewn y dalgylch, p'un a yw'n byw yng Nghasnewydd neu'r tu allan iddi, yn cael ei ystyried yn gyfartal o ran blaenoriaeth i'w derbyn i'r ysgol hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r awdurdod lleol (ALI) y mae'r disgybl yn preswyllo ynddo sy'n gyfrifol am bennu ysgolion dalgylch amgen. O ganlyniad, hysbyswyd ALIau Sir Fynwy a Thorfaen ym mis Medi 2019 ei bod yn debygol y byddai Casnewydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y sail hon. Fel y nodwyd eisoes, mae Cyngor Sir

Fynwy eisoes wedi dynodi ysgolion dalgylch amgen ar gyfer teuluoedd ym Mrynbuga a Goetre.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r cynnig hwn yn eithrio unrhyw ymgeiswyr rhag mynegi dewis ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion. Mae lleihau maint y dalgylch yn cynyddu'r cyfle i geisiadau y tu allan i'r dalgylch fod yn llwyddiannus. O ganlyniad, gall llawer o drigolion Sir Fynwy a Thorfaen barhau i wneud cais am le yn yr ysgol hon, a bydd rhai ceisiadau yn sicr o fod yn llwyddiannus ar sail blaenoriaeth brodyr/chwirydd a/neu bellter o'r cartref i'r ysgol.

(b) Symud Ysgol Gynradd Somerton o glwstwr a dalgylch Llyswry i glwstwr a dalgylch Llanwern

Mae dalgylchoedd uwchradd hefyd yn cynrychioli grwpiau o ysgolion, a elwir yn glystyrau, lle mae'r ysgolion cynradd yn yr ardal ddiffiniedig yn gweithio gyda'r ysgol uwchradd sydd wedi'i chyd-leoli i rannu arfer gorau a chefnogi pontio disgyblion.

Ym mis Mehefin 2019, datblygwyd cynnig ar y cyd gan gyrrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton a Chyngor Dinas Casnewydd i ffedereiddio ysgolion cynradd Eveswell a Somerton yn ffurfiol o dan un corff llywodraethu. Roedd y cynnig yn dilyn trefniant cydweithredol tair blynedd lle'r oedd Pennaeth Ysgol Gynradd Eveswell hefyd wedi bod yn Bennaeth Gweithredol Ysgol Gynradd Somerton. Cymeradwywyd y cynnig hwn yn rhymor hydref 2019, ac fe'i gweithredwyd ym mis Ionawr 2020.

Fodd bynnag, un broblem yw'r ffaith bod y ddwy ysgol gynradd o fewn clystyrau o ysgolion uwchradd ar wahân ar hyn o bryd. Yn ystod y broses ymgynghori, nodwyd y gallai gweithio ar draws dau glwstwr ar wahân yn y tymor hwy fod yn rhwystr posibl i lwyddiant y ffederasiwn. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Somerton yn cyd-fynd â chlwstwr Ysgol Uwchradd Llyswry er bod ei lleoliad rhwng dwy ysgol gynradd yng nghlwstwr Llanwern. Mae Ysgol Gynradd Eveswell yn rhan o glwstwr Ysgol Uwchradd Llanwern ar hyn o bryd.

O ystyried y sefyllfa bresennol hon, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Gweithredol weithio ar draws dau glwstwr ac i ddau gynllun clwstwr ar wahân. Er mwyn cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol, mae'n ymddangos yn rhesymegol defnyddio'r cyfle hwn i gysoni'r ddwy ysgol â'r un clwstwr uwchradd.

Wrth fwrw ymlaen â hyn, rhoddwyd ystyriaeth i ddau ddewis – symud Eveswell i Llyswry neu symud Somerton i Llanwern. Fodd bynnag, mae'r ail ddewis yn well oherwydd lleoliad Ysgol Gynradd Somerton, a'r ffaith bod nifer derbyn cyfun y cohortau Blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd yng nghlwstwr presennol Llyswry yn fwy na nifer derbyn yr ysgol uwchradd.

(c) Disodli'r lle gwarantedig mewn ysgol i blant personél lluoedd arfog y DU mewn unrhyw ysgol o'u dewis gydag ysgol y dalgylch

Ers 2017, mae'r polisi derbyn i ysgolion wedi hwyluso derbyn plant personél lluoedd arfog y DU i'r ysgol o'u dewis, hyd yn oed os yw'r grŵp blwyddyn eisoes yn llawn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn llawer mwy hael nag y mae'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol yn mynnu. O ganlyniad, mewn perthynas â cheisiadau i blant personél lluoedd arfog y DU, mae'r newid arfaethedig fel a ganlyn:

- Dyfarnu blaenoriaeth dalgylch i'r ysgol a ffeirir ond heb warantu lle yno, oni bai mai ysgol y dalgylch yw hi hefyd;
- Dyfarnu blaenoriaeth i'r teuluoedd hynny sydd wedi symud i Gasnewydd o ganlyniad uniongyrchol i'w swydd yn unig – nid i gael eu rhyddhau mwyach;

Er gwaethaf y newid hwn, rhagwelir y byddai trefnidau'r polisi diwygiedig yn parhau i gefnogi'r personél penodol hynny y mae'n ofynnol iddynt symud ar fyr rybudd ac na allant, o ganlyniad, gydymffurfio â'r gweithdrefnau derbyn arferol i'r ysgol.

(ch) I ddileu'r flaenoriaeth benodol ar gyfer plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant

Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau na fydd eu trefniadau'n achosi anfantais annheg, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i blentyn o grŵp cymdeithasol penodol. Oherwydd bod gan y Cyngor drefniadau amrywiol ar waith ar gyfer buddiannau plant sy'n agored i niwed, nid yw'n ofynnol rhoi blaenoriaeth benodol i blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. O ganlyniad, y cynnig yw dileu'r datganiad hwn o'r meini prawf presennol ar gyfer gordanysgrifio.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol â'r ymgynghoreion statudol ac anstatudol canlynol:

Ymgynghoreion Statudol	
Corff llywodraethu'r ysgolion perthnasol	Cyrff llywodraethu pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yng Nghasnewydd
Pob awdurdod lleol cyfagos	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Dinas Caerdydd Cyngor Sir Fynwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Awdurdodau derbyn ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn yr ardal	Cyrff llywodraethu pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghasnewydd
Yn achos ysgolion â chymeriad crefyddol, y person neu'r corff sy'n cynrychioli'r enwad crefyddol perthnasol	Cyfarwyddwr Esgobaethol, yr Eglwys yng Nghymru Cyfarwyddwr Esgobaethol, Catholig
Ymgynghoreion Anstatudol	
Y fforwm derbyn sy'n gwasanaethu'r ardal	Fforwm Derbyn i Ysgolion Casnewydd
Rhieni plant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd y mae'n debygol yr effeithir arnynt	Rhieni'r plant sy'n mynychu: <i>Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams</i> <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Gynradd Langstone</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd Somerton</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Penaethiaid	Penaethiaid pob ysgol yng Nghasnewydd yn ogystal â'r ysgolion canlynol yr effeithiwyd arnynt yn Sir Fynwy a Thorfaen: <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Aelodau Etholedig	Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd
Cynghorau cymuned	Pob cyngor cymuned yng Nghasnewydd
Cynrychiolwyr o bersonél lluoedd arfog y DU	Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol Hyrwyddwr Lluoedd Arfog Casnewydd Teuluoedd lluoedd arfog y DU sy'n mynychu ysgolion Casnewydd

Ymgynghoreion anstatudol	
Sefydliadau eraill	Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Casnewydd
Timau Cyngor Dinas Casnewydd	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Y Gyfraith a Rheoleiddio Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dechrau'n Deg Adfywio a Thai Trafnidiaeth Integredig Project Adleoli Pobl sy'n Agored i Niwed
Rhieni plant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd y mae'n debygol yr effeithir arnynt	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol: <i>Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams</i> <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Gynradd Langstone</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd Somerton</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion uwchradd perthnasol	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol: <i>Ysgol Gyfun Caerllion</i> <i>Ysgol Uwchradd Llanwern</i> <i>Ysgol Uwchradd Llyswyry</i>

Rhodddwyd cyhoedduswydd i'r ddogfen ymgynghori hefyd trwy dudalen 'Dweud eich dweud' y Cyngor a thrwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Ymatebion o'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd 52 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac roedd pob un ohonynt yn ymwneud â'r cynnig i ddiwygio'r dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion. O'r rhain, roedd 47 o'r ymatebion yn mynegi pryder am y cynnig. Nid oedd y pum ymateb arall yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig, ond roeddent yn codi cwestiynau ynglŷn â'u hamgylchiadau penodol. Ymhlith yr ymatebwyr roedd disgyblion, rhieni/gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd, a chynghorau cymuned, cyrff llywodraethu, Aelodau Seneddol, Aelodau Etholedig, awdurdodau lleol cyfagos ac Esgobaeth Mynwy.

Er bod rhai ymatebwyr wedi codi mwy nag un mater yn eu hymateb, mae dadansoddiad o nifer a math y gwrthwynebiadau, ynghyd ag ymatebion y Cyngor, wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

Rheswm dros Wrthwynebu	Nifer a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor
Yr effaith ar gydlyniant cymunedol lleol a lles disgyblion	46	Er bod dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion wedi ymestyn yn draddodiadol i ardaloedd Brynbuga, Goetre a Phont-hir, mae'r galw am leoedd mewn ysgolion ymhlith preswylwyr Casnewydd yn golygu nad yw hyn yn gynaliadwy mwyach. Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch.

Rheswm dros Wrthwynebu	Nifer a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor
Pellter i ysgol amgen a diogelwch llwybrau teithio rhwng y cartref a'r ysgol	40	Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgylch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini prawf, a bydd gan y rhai sy'n nes at yr ysgol gyfle gwell o sicrhau lle. O ran ysgolion amgen, gall yr awdurdod lleol lle rydych yn byw ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â'r polisi y cytunwyd arno.
Yr effaith ar bontio a brodyr/chwiorydd	23	Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgylch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini prawf, a bydd gan y rhai sydd â brodyr/chwiorydd perthnasol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol a ffefrir flaenoriaeth uwch o ran sicrhau lle. Bydd trefniadau pontio yn parhau i gael eu hwyluso rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar ôl i le mewn ysgol uwchradd gael ei gynnig.
Yr effaith amgylcheddol a lles cenedlaethau'r dyfodol	21	Dynodwyd Caerllion yn ardal rheoli ansawdd aer oherwydd y lefelau uchel o lygredd a achosir gan draffig ffyrdd. Bydd unrhyw leihad yn nifer y cerbydau sy'n teithio drwy Gaerllion yn helpu i liniaru rhywfaint o'r pwysau sy'n achosi'r lefelau llygredd uchel. Yn ogystal, yn adroddiad diweddar Centre for Cities (https://www.centreforcities.org/city/newport), Casnewydd yw'r trydydd allyrrwr mwyaf y pen o garbon deuocsid, un o'r nwyon tŷ gwydr. Bydd lleihau pellter cymudo i'r ysgol yn debygol o arwain at ostyngiad yn y nwyon tŷ gwydr a gynhrychir. Er bod y ddau ostyngiad (llygredd aer a charbon deuocsid) yn gymharol fach o ystyried y sefyllfa ehangach, mae pob gweithred fach y gellir ei gwneud i leihau pellteroedd cymudo yn gallu cyfrannu at welliant cyffredinol. O ystyried nad oes unrhyw fwriad i gynyddu nifer cyffredinol y lleoedd yn yr ysgol uwchradd, ni fydd nifer y disgyblion sy'n teithio i'r ysgol o'r tu allan i Gaerllion yn newid yn sylweddol.

Rheswm dros Wrthwynebu	Nifer a Dderbyniwyd	Ymateb y Cyngor
Y broses a'r fethodoleg ymgynghori	11	Mae'r ymgynghoriad yn cydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru ac mae'n cyd-fynd â threfniadau tebyg mewn blynyddoedd blaenorol.
Yr effaith ar safonau addysgol	10	Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y safonau oherwydd y cynnig hwn yn unrhyw un o ysgolion cynradd neu uwchradd Casnewydd.
Cost cludiant amgen o'r cartref i'r ysgol	4	Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gytuno ar bolisi cludiant unigol rhwng y cartref a'r ysgol i gefnogi mynediad i'r ysgol. Mae polisi Casnewydd yn darparu cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sy'n byw tair milltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Os bydd rhieni'n gwneud cais i'w plentyn fynychu ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch iddynt neu'r ysgol agosaf sydd ar gael, y rhieni sy'n gwbl gyfrifol am yr holl gostau a threfniadau cludiant. Felly ni ragwelir y bydd y costau i Gasnewydd yn cynyddu oherwydd y cynnig hwn ond cydnabyddir y gallai fod effaith ar ALLau eraill.

O ran yr ymatebion penodol gan ALLau cyfagos, nododd Torfaen na fyddent yn gallu darparu ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u dadleoli (Pont-hir) yn barod ar gyfer Medi 2021. Mewn ymateb, nododd Casnewydd eu bod wedi hysbysu Torfaen o'r cynnig ym mis Medi 2019, gan roi bron dwy flynedd o rybudd o'r newid.

Ar ôl ystyried newidiadau tebyg yn 2019 i gael eu rhoi ar waith yn 2020, roedd Sir Fynwy o blaid cynnig Casnewydd yn fras. Fodd bynnag, roeddent yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i'r ddau fater isod:

- Ardal o fewn ffin Sir Fynwy sydd ar hyn o bryd yn rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams (ysgol wirfoddol a gynorthwyr yw hon sy'n gyfrifol am ei threfniadau derbyn ei hun). Cafodd yr ardal hon ei hepgor o gynnig Sir Fynwy ac felly mae mewn perygl bellach o fod heb ysgol ddalgylch uwchradd wedi'i dynodi. Ni nodwyd hyn fel problem gan unrhyw barti cyn lansio ymgynghoriad Casnewydd;
- Dylid rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ddisgyblion y cafodd eu brodyr a'u chwiorydd hŷn eu derbyn i Ysgol Gyfun Caerllion pan oedd yr ysgol honno'n ysgol ddalgylch iddynt.

Er ein bod yn cydymdeimlo o ran y materion a godwyd mewn perthynas â'r pwynt cyntaf, byddai hyn yn arwain at rywfaint o anghysondeb ag ardaloedd eraill yn Sir Fynwy a Thorfaen, ac felly, ar ôl peth ystyriaeth, penderfynwyd nad yw'n ymddangos yn rhesymol i gymeradwyo'r cais hwn. Mewn ymateb i'r sylw am gysylltiadau â brodyr a chwiorydd, mae'r Cyngor yn cynghori y byddai rhieni disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio amynt yn dal yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er wrth eu hystyried fel ymgeiswyr y tu allan i'r dalgylch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgylch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini prawf, a bydd gan y rhai sydd â brodyr/chwiorydd perthnasol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol a ffefrir flaenoriaeth uwch o ran sicrhau lle.

Ni dderbyniwyd sylwadau, naill ai'n gadarnhaol nac yn negyddol, ynghylch unrhyw un o'r tri newid arfaethedig arall a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Llais y Dysgwr

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr wrth gynnig newidiadau i bolisiâu. O ganlyniad, er nad yw'r Cod Derbyn i Ysgolion yn datgan y dylai ymgynghori gynnwys ymgysylltu â dysgwyr, ceisiwyd gwneud hyn. Hon oedd y flwyddyn gyntaf y rhoddyd cynnig ar hyn mewn perthynas â'r ymgynghoriad blynyddol ar drefniadau derbyn ac fe'i hwyluswyd drwy arolwg SNAP ar-lein a gylchredwyd drwy'r ysgolion a restrir yn yr adran uchod.

Cyhoeddwyd rhai o'r arolygon hyn yn hwyr yn y cyfnod ymgynghori, ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn cydnabod felly nad oedd yr ymgysylltu hwn mor effeithiol ag y bwriadwyd. O ganlyniad, mae Llais y Dysgwr yn anodd ei asesu'n effeithiol yn yr achos hwn. Er gwaethaf hyn, derbyniwyd 66 o ymatebion erbyn y dyddiad cau fel a ganlyn:

Cynnig 1 - Derbyniwyd un ar bymtheg o ymatebion gyda 15 (93.8%) yn nodi eu bod yn deall y cynnig. Nododd yr un nifer eu bod yn teimlo y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt. Roedd dadansoddiad manylach yn nodi mai rhieni yn hytrach na disgyblion oedd wedi cyflwyno rhai o'r ymatebion. Ym mhob achos, nododd yr ymatebwyr eu bod yn agos iawn at Ysgol Gyfun Caerllion, bod ganddynt gysylltiadau pontio sefydledig a bod aelodau'r teulu eisoes yn mynychu'r ysgol a ffeirir. Ymdriniwyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hyn eisoes yn yr adran flaenorol.

Cynnig 1 - Derbyniwyd 46 o ymatebion gyda 39 (86.7%) yn nodi eu bod yn deall y cynnig. Dim ond 12 disgybl (27.3%) oedd yn credu y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt, a nodwyd pryderon gan gynnwys methu â mynychu digwyddiadau Addysg Gorfforol yn yr ysgol uwchradd glwstwr bresennol. Ond pe bai'r cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, mae'n debygol y byddai digwyddiadau tebyg yn cael eu trefnu yn yr ysgol uwchradd glwstwr newydd. Roedd un sylw hefyd yn nodi'r pellter i'r ysgol amgen. Fodd bynnag, ni fydd y cynnig hwn yn atal teuluoedd rhag gwneud cais i unrhyw ysgol o'u dewis.

Cynnig 3 - Cafwyd pedwar ymateb a chadarnhaodd pob un ei fod yn deall y cynnig. Roedd yr holl ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynnig yn effeithio'n ddiangen ar deuluoedd y lluoedd arfog, ac y dylai'r trefniadau presennol barhau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae polisi presennol Casnewydd yn llawer mwy hael nag y mae'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol yn gofyn amdano. Er gwaethaf y newid hwn, rhagwelir y byddai trefniadau'r polisi diwygiedig yn parhau i gefnogi'r personél penodol hynny y mae'n ofynnol iddynt symud ar fyr rybudd ac na allant, o ganlyniad, gydymffurfio â'r gweithdrefnau derbyn arferol i'r ysgol.

Argymhellion

Argymhellir bod y newidiadau a gynigiwyd trwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu i'w gweithredu o fis Medi 2021.

Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn electronig ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Schools/Apply-for-a-Place/Apply-for-a-Place.aspx>

I wneud cais am gopi (papur) caled o'r ddogfen hon cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd trwy ffonio 01633 656656 neu e-bostio school.admissions@newport.gov.uk